**Dyddiad:** **Dydd Mercher 8 Hydref 2003**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Adroddiad ar Faterion Cyfredol o fewn yr Asiantaeth Safonau Bwyd**

## Diben

Mae'r papur hwn er gwybodaeth ac yn darparu adroddiad ar y materion cyfredol y mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn delio â hwy a allai fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

## Crynodeb/Argymhellion

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi gweithgareddau diweddar yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru, a amlinellir yn y papur hwn.

## Cefndir

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn un o adrannau anweinidogol y llywodraeth ledled y DU, sy'n gweithredu 'o hyd braich' i Weinidogion, a sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Cyfrifoldebau statudol yr Asiantaeth Safonau Bwyd yw diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau eraill defnyddwyr o ran bwyd.

Sefydlwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn dilyn cyfres o achosion o bryder yn ymwneud â diogelwch bwyd ac argyfwng BSE, er mwyn gwahanu'r cyfrifoldeb dros ddiogelwch bwyd a'r cyfrifoldeb dros hybu'r diwydiannau bwyd a ffermio. Mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd bwer statudol i gyhoeddi ei gyngor i'r cyhoedd neu i Weinidogion heb gael caniatâd Gweinidogion ymlaen llaw, ond ei nod yw gweithio gydag adrannau eraill y llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig 'heb beri syndod'.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy'r Gweinidog dros

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gofynnodd y pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol am gael derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a gweithgareddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Gwerthoedd craidd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yw:

- rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf;
- bod yn agored a hygyrch; a
- bod yn llais annibynnol.

Mae adran weithredol yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru (FSA Cymru) yn cynnwys 19 aelod o staff a leolir yng Nghaerdydd. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ariannu costau gweinyddol FSA Cymru a gweithgareddau'r Asiantaeth yng Nghymru. Y gyllideb ar gyfer FSA Cymru yn 2003/04 yw £2.277 miliwn, gyda £400,000 yn dod drwy gytundebau lefel gwasanaeth gyda'r Arolygiaeth Hylendid Cynnyrch Llaeth a Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cynnal arolygiadau hylendid cynnyrch llaeth a'r rhaglen monitro defaid barhaus sy'n gysylltiedig â Chernobyl, yn y drefn honno.

## Materion cyfredol o fewn yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Gorfodi cyfraith bwyd gan awdurdodau lleol

Mae'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn bartneriaid allweddol o ran gwella diogelwch a safonau bwyd yng Nghymru. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cydweithio gydag awdurdodau lleol ar amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys:

- llunio cynlluniau cyfredol gyda hwy ac asiantaethau perthnasol eraill er mwyn sefydlu uned cydlynu arbenigol i atal y broses o ladd da byw yn anghyfreithlon yng Nghymru; a
- y fenter ar y cyd rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd a phob awdurdod lleol yng Nghymru sydd wedi mabwysiadu Cynllun Gwobrau Hylendid Bwyd Cymru, gan gydnabod safonau uchel o hylendid bwyd o fewn busnesau bwyd a thynnu sylw'r defnyddwyr ato.

Mae awdurdodau lleol wedi cynnal deunaw o brojectau gydag arian gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac Awdurdod Datblygu Cymru er mwyn cynyddu dealltwriaeth arlwywyr o systemau Pwyntiau Rheoli Hanfodol ar gyfer Dadansoddi Peryglon (HACCP), sy'n ddull o reoli diogelwch bwyd yn effeithiol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Nod y projectau hyn yw hybu nifer yr arlwywyr sy'n mabwysiadu HACCP mewn sefydliadau arlwyo sy'n peri risg uchel. Un o brif amcanion strategaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd i leihau clefydau a gaiff eu cludo gan fwyd a gwella diogelwch defnyddwyr yw cynyddu nifer y busnesau bwyd yn y DU sy'n gweithredu rheoliadau rheoli diogelwch bwyd sy'n seiliedig ar HACCP. Yn ôl ymarfer gwerthuso rhagarweiniol croesawyd y projectau yn frwd, gyda llawer o fusnesau yn gallu cyflwyno systemau HACCP.

Mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gyfrifol am fonitro ac archwilio proses gynllunio a pherfformiad awdurdodau lleol o ran eu rhaglenni gorfodi cyfraith bwyd. Archwiliwyd deg awdurdod lleol hyd yn hyn a bwriedir cynnal pedwar archwiliad arall yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Prif ganlyniad pob archwiliad yw cynllun gweithredu, y cytunwyd arno rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd a’r awdurdod lleol. Cyhoeddir adroddiadau archwilio a chynlluniau gweithredu cytûn ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd – www.food.gov.uk/wales.

Gwenwyn pysgod cregyn diarëig (DSP) mewn cocos

Yn sgîl y rhaglen monitro tocsinau pysgod cregyn a gydlynwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar welyau pysgod cregyn ledled y DU, gwelwyd adweithiau positif annodweddiadol achlysurol yn y gwaith biobrofi safonol ar gyfer tocsin DSP. Hyd nes y bydd y goblygiadau posibl o ran iechyd dynol yn hysbys, mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd o blaid cau gwelyau pysgod cregyn dros dro gan awdurdodau lleol sydd â chanlyniadau DSP positif annodweddiadol. Cilfach Tywyn yw’r ardal yr effeithiwyd fwyaf arni yng Nghymru, ond effeithiwyd ar rannau eraill o’r DU yn yr un modd.

Mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cefnogi rhaglen helaeth i ymchwilio i’r hyn sy’n achosi’r adwaith annodweddiadol i’r prawf DSP ac i asesu ei oblygiadau o ran iechyd dynol. Disgwylir i’r rhan fwyaf o’r gwaith hwn gael ei gwblhau yn fuan. Mae’r rhaglen yn cynnwys:

- archwiliad annibynnol o’r gweithdrefnau a ddilynir wrth gynnal y prawf DSP yn y tri labordy monitro statudol yn y DU. Disgwylir i’r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Hydref ar ôl i’r labordai, y diwydiant a’r awdurdodau gorfodi drafod y canfyddiadau;
- ymchwiliad i weld pa un a yw’r dulliau a ddefnyddir yn y labordai yn arwain at gynhyrchu gweddillion o ether ac, os felly, pa un a yw hyn yn cyfrannu at yr adwaith annodweddiadol. Disgwylir i’r adroddiad ar y gwaith hwn hefyd gael ei gyhoeddi yn ystod mis Hydref;
- datblygu gweithdrefn safonau a optimeiddiwyd, gan y Labordy Gwyddoniaeth Canolog, ar gyfer y Biobrofi DSP ar Lygod a ddefnyddir gan y labordai monitro statudol yn y DU. Disgwylir i’r weithdrefn hon gael ei phrofi yn ystod mis Tachwedd.
- canfod cyfansoddiad cemegol darnau annodweddiadol a negatif o bysgod cregyn. Caiff y gwaith hwn ei wneud gan Gemegwr Labordy’r Llywodraeth.
- astudiaeth tocsicoleg, y bydd y cynnydd a wneir yn dibynnu ar ba un a fydd y Swyddfa Gartref yn dyfarnu trwydded ai peidio; a
- menter swmp-samplo sy’n cynnwys y broses o gasglu ac agor sampl sylweddol o gocos a’u hanfon i Japan. Er bod protocol wedi cael ei ddatblygu gan y rhai sy’n ymwneud â’r fenter gydweithredol ni all y fenter ddechrau hyd nes y caiff y cynllun ei gymeradwyo gan y cydlynydd Japaneaidd ac y mae gwelyau pysgod cregyn yn adweithio’n annodweddiadol unwaith eto i’r prawf DSP.

Hylendid bwyd

Yn ogystal â’i waith gydag awdurdodau lleol, mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal ymgyrch fawr ar wybodaeth am hylendid bwyd, a fydd yn ddwyieithog yng Nghymru, er mwyn mynd i’r afael â’i amcanion o ran hylendid bwyd. Mae’r ymgyrch yn targedu ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cynhyrchwyr bwyd, proseswyr, arlwywyr a defnyddwyr.

Mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd yn hyrwyddo addysg hylendid bwyd i blant ysgol. Mae adnodd addysgol symudol wedi bod ar daith o amgylch ysgolion Cymru, datblygwyd sawl adnodd addysgu a’u dosbarthu i ysgolion, a chynlluniwyd cwrs peilot byr newydd ar hylendid bwyd a maeth ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd mewn sawl ysgol cyn gwyliau’r haf 2003. Disgwylir adborth gan yr ysgolion a gymerodd ran ar hyn o bryd.

Llaeth Amrwd

Cynhaliodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ymarfer ymgynghorol yng Nghymru ar ba un a ddylid parhau i werthu llaeth yfed a hufen (heb ei basteureiddio) amrwd yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ymarfer yn sgîl argymhelliad gan Bwyllgor Ymgynghorol Cymru ar Fwyd (WFAC) y dylid gwahardd gwerthu llaeth a hufen amrwd oherwydd y risgiau iechyd. Yng ngoleuni’r ymatebion i’r ymgynghoriad ac yn dilyn ystyriaeth bellach, cytunodd y WFAC na fyddai gwaharddiad yn briodol. O ganlyniad, dyma’r cyngor a roddodd yr Asiantaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac argymhellwyd y dylid cyflwyno deddfwriaeth, yn hytrach na gwaharddiad, sy’n ei gwneud yn ofynnol i roi rhybudd iechyd cryfach ar label y cynnyrch ar gyfer grwpiau diamddiffyn. Gyda chytundeb y Gweinidog, mae’r Asiantaeth yn archwilio ymarferoldeb ymagwedd wirfoddol tuag at labelu gwell gyda chynhyrchwyr llaeth amrwd cyn cyflwyno deddfwriaeth.

Maeth

Lansiwyd "Bwyd a Lles", strategaeth a chynllun gweithredu ar y cyd a ddatblygwyd gan FSA Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, ym mis Chwefror 2003 gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae’r cynllun gweithredu eisoes ar waith:

- Ar ddiwrnod agoriadol y Sioe Frenhinol yn 2003, lansiwyd CD-Rom newydd gan Brif Weinidog Cymru sef "Gimme 5" sy’n ceisio annog pobl ifanc rhwng 11 ac 14 oed i fwyta mwy o ffrwythau a llysiau. Cynhyrchir cylchgrawn i gyd-fynd â’r CD hefyd sy’n cynnwys gair o gefnogaeth gan y pencampwr chwaraeon Colin Jackson, CBE;
- Mae Canolfan Iechyd Cymru yn cynnal project ymchwil a ariennir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar ddatblygu addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a rhwydwaith gwybodaeth am faeth yng Nghymru;
- Mae FSA Cymru wedi cynnal arolwg o brydau ysgol a dewisiadau plant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd;
- Cyflwynwyd rhaglen beilot ar gyfer adnoddau "Coginiwch!" newydd mewn cymunedau difreintiedig. Yn dilyn canlyniad gwerthusiad annibynnol o’r rhaglen beilot, bydd FSA Cymru yn archwilio partneriaethau posibl gyda sefydliadau gwirfoddol gan obeithio cyflwyno’r adnodd yn

ehangach yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru;

- Ym mis Gorffennaf 2003, lansiodd Is-adran Hybu Iechyd y Cynulliad ei Chynllun Grantiau Hybu Iechyd Bwyd a Ffitrwydd a sefydlwyd cysylltiadau gyda'r Grwp Cydweithredol er mwyn cefnogi'r mentrau hyn ledled Cymru;
- Datblygwyd a dosbarthwyd canllawiau atodol, er mwyn cynorthwyo Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol i baratoi elfen maeth y strategaethau Iechyd a Lles lleol; ac
- FSA Cymru sy'n gyfrifol am elfen bwyta'n iach rhaglen "Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn" y Cynulliad, gan gynnwys rhaglen grantiau bach ar gyfer projectau sy'n ymwneud â'r henoed.

Cyfathrebu

Er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol o weithgareddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, mae FSA Cymru yn ysgrifennu erthygl wythnosol yn y *Western Mail* ac yn ysgrifennu colofn ar faeth ar gyfer y wasg ranbarthol. Mae adran Cymru gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd hefyd wedi cael ei gwella a'i hehangu.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal sioeau addysgiadol bywiog mewn digwyddiadau gan gynnwys Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, y Sioe Frenhinol a ffeiriau gwyddoniaeth. Yn ystod y Sioe Frenhinol eleni, ymwelodd dros 3,000 o bobl â stondin FSA Cymru gan weld perfformiadau o "Bwyd Drwg yn Fyw" a chymryd rhan ynddynt (yn Gymraeg a Saesneg), sef parodi o raglenni coginio sy'n cynnwys pobl enwog a oedd yn ymgorffori negeseuon ar hylendid bwyd.

Mae'r broses o gyfathrebu â rhanddeiliaid eraill yn cynnwys cylchlythyr ar y cyd rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd/awdurdodau lleol a anfonir at swyddogion diogelu'r cyhoedd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru a chyfarfodydd adborth rhanddeiliaid blynyddol.

Materion eraill

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer Pwyllgor Ymgynghorol Cymru ar Fwyd, a benodir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn cynghori'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar y materion sydd o bwys penodol i Gymru. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd ledled Cymru ar ffurf sesiwn hawl i holi. Ym mis Medi 2003, cynhaliwyd cyfarfod agored ar y thema benodol "Diogelwch Bwyd" yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd yng Nghaerdydd. Cynhelir cyfarfod thematig arall yng Nghasnewydd ar ddiwedd mis Tachwedd.

Cynhaliwyd cyfarfod agored Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ym mis Mai 2003 yng Nghaerdydd. Trefnwyd i Gadeirydd y Bwrdd, Yr Athro Syr John Krebs, ymweld â Thy Crugywel ac annerch Aelodau'r Cynulliad ar waith yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 30 Hydref 2003.

Mae FSA Cymru yn cynghori'r Cynulliad ar ddeddfwriaeth diogelwch bwyd ac yn rheoli ei rhaglen o is-ddeddfwriaethau, yn unol â therfynau amser yr UE. Mae FSA Cymru hefyd yn cynnal sesiynau briffio ar gyfer Gweinidogion a Phwyllgorau'r Cynulliad ar faterion bwyd ac mae wedi cyfrannu at y broses o

ddatblygu dogfennau polisi gan gynnwys "Dyfodol Ffermio", "Lles yng Nghymru", y Cynllun Clefyd y Crafu Cenedlaethol a chynllun wrth gefn BSE.

Cytunwyd ar gynllun iaith Gymraeg gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg a chyflwynwyd adroddiad monitro blynyddol cyntaf yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ddiweddar.

Gellir cael mwy o wybodaeth am waith yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru a Phwyllgor Ymgynghorol Cymru ar Fwyd yn www.food.gov.uk.wales.

## Goblygiadau Ariannol

Ariennir llawer o’r gweithgareddau a nodir yn yr adroddiad hwn gan y gyllideb a ddyrannwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Yn ogystal, ariennir gweithgareddau eraill fel yr Ymgyrch Hylendid Bwyd a’r Gwaith Ymchwil ar Wenwyn Pysgod Cregyn Diarëig gan Asiantaeth Safonau Bwyd y DU o’r hyn a ddyrennir gan y Trysorlys am eu bod yn fentrau a weithredir ledled y DU. Nid yw’r adroddiad hwn yn gosod rhwymedigaethau ychwanegol na newydd o ran gwariant ar y Cynulliad Cenedlaethol.

## Themâu Trawsbynciol

Mae gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru yn ategu amrywiaeth o strategaethau’r Cynulliad, yn enwedig yr agenda Iechyd a Lles ehangach o ran lleihau’r risg o salwch ac afiechyd a hybu iechyd gwell yn enwedig mewn perthynas â’r grwpiau difreintiedig.

Mae FSA Cymru yn gweithio’n agos â llywodraeth leol, awdurdodau iechyd, cynhyrchwyr a phroseswyr bwyd, manwerthwyr, y sector gwirfoddol, ac mae’n gweithio’n uniongyrchol â defnyddwyr wrth geisio bodloni ei amcanion strategol.

## Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi gweithgareddau diweddar yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru, a amlinellir yn y papur hwn.

**Jane Hutt AC**
**Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Enw cyswllt: Steve Wearne, Asiantaeth Safonau Bwyd (Cymru). Ffôn: 029 2067 8903